



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024
DYDDIAD 22 Hydref 2024
GAN Huw Irranca-Davies, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb i wneud offeryn statudol o'r enw Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024. Mae Rheoliadau 2024 yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 36(1)(b) a (c) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

Mae Rheoliadau 2024 yn ymwneud â mesurau sy'n berthnasol i'r bysgodfa draenogiaid môr sy'n ymestyn y tu hwnt i Barth Cymru. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn gymwys ar sail y DU ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU. Yn benodol, mae Rheoliadau 2024 yn dileu darpariaethau pysgota draenogiaid môr ar gyfer cychod pysgota cofrestredig y Deyrnas Unedig o Reoliad y Cyngor (UE) 2020/123. Mae hyn er mwyn galluogi rheoli mwy ymatebol trwy drwyddedu cychod.

Rhoddwyd caniatâd gan fod y Rheoliadau hyn yn gymwys i bysgodfa a rennir sy'n gweithredu o fewn a thu hwnt i barth Cymru. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn gymwys ar sail y DU ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU.

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2024 a byddant yn dod i rym ar 16 Rhagfyr 2024.